# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid rhithiol gynhalwyd nos Fercher 25ain o Fai 2022**

1. Presennol Cyng L A James – Cadeirydd, Cyng J Pierce Cyng D Jones-Morris a'r Cyng B. Jones Clerc E Jones

2. Ymddiheuriadau Dim

3. Cod Ymddygiad / Datgan buddiant Atgoffwyd pawb o'r drefn ond ni ddatgelwyd buddiant

4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 27-04-2022

   Derbynynwyd eu bod yn gofnod cywir ar gynnig Cyng J Pierce ai eilio gan y Cyng B Jones

5. Materion yn codi o'r cofnodion

   **Cerrig Beddi** – dim ymateb i gadarnhau pryd mae cyfrifoldeb teulu yn trosglwyddo neu os yw'n trosglwyddo Soniodd y Clerc ei fod wedi trafod hefo Cwmni i gael y cynlluniau o'r fynwent wedi eu fframio ar gyfer y Cwmni fyddai'n archwylio'r cerrig ond gan fod bellach yr adran llwch sydd ddim ar y cynllun trafodwyd cael tynnu llun o'r awyr **Clerc i drefnu**

   **Hysbysfwrdd Ysbyty Gwynedd**

   Yr hysbysfwrdd yma yn dal heb ei osod oherwydd nifer o wahanol resymau Cyng L A James am godi'r mater hefo'r person sy'n gyfrifol am stad yr Ysbyty i geisio eu cael nhw i'w osod gan fod cymaint o ofynnion tae ni'n trefnu'r gosod

6. Adroddiad Ariannol

   Cyflwynwyd y fantolen ariannol oedd wedi ei anfon yn electronig i bawb ar y sgrin Derbynwyd fel dadleniad cywir o'n sefyllfa ariannol hefo £50,806.81 yn y cyfrif cyfredol a £35,041.97 yn y cyfrif Cadw

7. Archwylio Allannol

   Dim ymateb wedi ei dderbyn

8. Taliadau angen sylw Argymhelwyd fod y cyfan yn cael eu talu

| | | |
|---|---|---|
| I. | Yswiriant Argymell hefyd i'r Cyngor Llawn dderbyn cytundeb 3 blynedd | £1,537.74 |
| II. | Cyflog Mai | £610.24 |
| III. | HMRC Mai M2 | £152.60 |
| IV. | D W Lewis Torri gwair Ebrill | £685.00 |
| V. | James Devlin | £150.00 |
| VI. | G I Williams Torri Gwair Caerhun 2021-22 | £525.00 |
| VII. | Beth Horrocks Gwaith Dylunio | £280.00 |
| VIII. | Storio Neuadd Rhiwlas | £240.00 |

   Nododd y Clerc nad oedd wedi derbyn ffurflenni/llyfryn o HMRC i dalu y dreth incwm a felly fod M1 a M2 yn ddyledus iddynt

   Cytunwyd i anfon yr ail ran Eisteddfod Genedlaethol 2023 sef £750. 00

   Cytunwyd i gyfrannu £1500 dros 2 flynedd

9. Ceisiadau Nawdd Dim Cais wedi ei dderbyn

10. Prosiectau
    a. Prosiect Ysgol Y Faenol Dim diweddariad ond angen i Gamlins weithredu ar ein prydles. **Clerc i holi am ddyddiadau i gyfarfod a thrafod di-gomisiynu y septic tanc yn Glasinfryn hefyd**
    b. Logo Newydd Fideo wedi ei dderbyn Cyng L A James am holi i drefnu cael arwyddion

c. Septic Tanc Glasinfryn Gwaith papur wedi ei gwblhau a’r Gwaith A E & A T Lewis i fod yn digwydd rhwng 6 a 17 o Fehefin
d. Capel y Fynwent Cyfarfod wedi bod ond y Clerc ddim mewn sefyllfa i adrodd yn ol gan iddo fethu bod yn bresennol

11. Cofrestr Risg
    Cyng L A James yn cynnig adolygu y Gofrestr i weld os oes rhai o’r risgiau wedi cynyddu neu leihau a dod yn ol hefo argymhellion
    **Diolchwyd iddi am ymgymeryd a’r dasg honno**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45